Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2026

"Yn ddiweddar, mae CThEF wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU ar gyfer mis Rhagfyr 2025. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau masnach ar gyfer 2025 yn fwy manwl."

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol y Farchnad



**Yn ôl data Defra, gostyngodd cynhyrchiant cig eidion y DU yn 2025 o 3%, tra bod cynhyrchiant cig defaid wedi codi o 2%, a chynhyrchiant cig moch o 3%. Ysgogwyd y gostyngiad yng nghynhyrchiant cig eidion gan ostyngiad o 5% yng nghyfanswm trwybwn gwartheg, tra bod y nifer o ddefaid ac wyn a laddwyd wedi aros yn sefydlog ar oddeutu 12.9 miliwn pen, gyda phwysau carcasau trymach yn cefnogi twf cynhyrchiant cyffredinol. Mae'n debyg bod y newidiadau hyn mewn cynhyrchiant domestig wedi dylanwadu ar argaeledd cynnyrch ar gyfer allforio ac wedi cyfrannu at newidiadau nodedig yn nynameg masnachu cig coch yn ystod 2025.**

## CIG EIDION




Yn ôl data HMRC, cyfanswm **allforion** cig eidion y DU oedd 111,500 tunnell yn 2025, gostyngiad o dan 1% flwyddyn ar flwyddyn. Er gwaethaf y gostyngiad bach mewn cyfaint, cynyddodd gwerth allforio o 28% i £727 miliwn, sy'n dangos prisiau cyfartalog fwy cadarn yn sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu cryfder parhaus ym marchnadoedd cig eidion byd-eang, wedi'i ategu gan gyflenwadau cyfyngedig ar draws rhanbarthau cynhyrchu allweddol. Fe wnaeth llwythi is i'r Iseldiroedd a Hong Kong bwyso ar y cyfaint cyffredinol. Fodd bynnag, cryfhaodd Iwerddon ei safle fel cyrchfan allforio fwyaf y DU, gyda chyfaint yn codi o 9% i bron 35,500 tunnell a'i chyfran o'r farchnad yn cynyddu o 29% i 32%. Mae'n debyg bod cynhyrchiant domestig llai wedi cyfyngu ar yr argaeledd cyffredinol ar gyfer allforio.

Arhosodd *cyfaint* **mewnforion** yn sefydlog i raddau helaeth ar 241,700 tunnell (+0.4%), tra cododd gwerth y mewnforion yn serth o 28% i £1.8 biliwn, gan adlewyrchu lefelau prisiau byd-eang cryf. Iwerddon oedd y cyflenwr mwyaf o hyd, er i'w chyfran ostwng o 77% yn 2024 i 67% yn 2025, gyda'r chyfeintiau'n gostwng 13% flwyddyn ar flwyddyn. Mewn cyferbyniad, cynyddodd llwythi o Seland Newydd, Awstralia a Brasil, gan gyflenwi 30,000 tunnell ychwanegol yn gyfunol a chyfrif am 85% o fewnforion y tu allan i'r UE (i fyny o 70% yn 2024). Mae'r newid hwn yn awgrymu rhywfaint o wahaniaeth yn y gyflenwad, gan adlewyrchu o bosibl argaeledd tynnach yn Iwerddon a phrisio cystadleuol gan allforwyr o hemisffer y de.

## CIG DEFAID




Yn 2025, roedd cyfanswm **allforion** cig oen y DU yn tua 86,700 tunnell, sef cynnydd o 9% o'i gymharu â'r llynedd a'r lefel uchaf ers 2020. Cynyddodd gwerth allforio o 12% i £655.2 miliwn, gyda chefnogaeth lefelau prisiau domestig a rhyngwladol cadarn. Fe wnaeth y cynnydd cymedrol yn y cynhyrchiant, wedi'i gynorthwyo gan bwysau carcasau mwy, helpu i sicrhau argaeledd ar gyfer allforio. Cofnodwyd twf ar draws marchnadoedd yr UE a marchnadoedd y tu allan i'r UE, gyda Ffrainc a Gwlad Belg yn gweld cynnydd nodedig.

Cynyddodd **mewnforion** y DU 3% i 69,900 tunnell - y lefel uchaf ers 2018. Yr hyn a ysgogodd y cynnydd yn bennaf oedd cynnydd o 7,000 tunnell yn y llwythi o Awstralia, gan godi'r cyfaint i bron i 29,000 tunnell. Mae'n debyg bod yr ehangiad hwn yn adlewyrchu gwelliannau mewn cynhyrchiant Awstralia a gweithrediad parhaus graddol mynediad ehangach di-dariff o dan Gytundeb Masnach Rydd y DU ac Awstralia. Mewn cyferbyniad, gostyngodd cyfaint Seland Newydd o 10% flwyddyn ar flwyddyn, er bod y wlad yn dal i fod yn gyfrifol am dros hanner cyfanswm mewnforion cig oen y DU. Gallai'r gostyngiad cymharol adlewyrchu newidiadau strwythurol ym mhraidd defaid Seland Newydd a chyfyngiadau ar y potensial i ehangu ymhellach mewn marchnad yn y DU sydd eisoes wedi'i hen sefydlu.

## PORC




Cododd **allforion** porc y DU o 5% yn 2025, i gyfanswm o 127,900 tunnell, tra gostyngodd gwerth yr allforion hyn o 5% i £237.5 miliwn, sy'n dangos prisiau cyfartalog meddalach.

Gostyngodd **mewnforion** y DU o 6% i ychydig o dan 320,700 tunnell, tra gostyngodd y gwerth yn fwy serth o 12%, gan adlewyrchu lefelau prisiau is eto. Yr Almaen oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn mewnforion, gyda'r cyfeintiau i lawr i 40% flwyddyn ar flwyddyn, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn llwythi o Wlad Belg a Denmarc.

## Masnach yng Nghymru

Yn 2025, cyrhaeddodd cyfanswm gwerth allforion cig coch (ffres/wedi'u rhewi) o Gymru amcangyfrif o £326.3 miliwn – 17% yn uwch nag yn 2024. Amcangyfrifwyd bod allforion cig defaid 9% yn uwch, gan gyrraedd bron i 30,000 tunnell, gyda gwerth y llwythi hyn hefyd yn codi o 13%. Fodd bynnag, profodd cig eidion ostyngiad o 1% yn y cyfaint a gludwyd i ychydig o dan 16,000 tunnell, tra bod gwerth yr allforion tua 28% yn uwch (sy'n debygol o fod wedi'i ysgogi gan brisiau gât y fferm cryfach).

*ffynhonnell: Amcangyfrifon HCC yn seiliedig ar ddata CThEF*

## *Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?*

*Fe wnaeth galw byd-eang cadarn a phrisiau uchel gefnogi gwerthoedd masnach yn 2025, er bod cyflenwadau cig eidion domestig cyfyngedig wedi cyfyngu ar dwf allforio. Mae amrywiaethu mewnforion cig eidion a chynnydd yng nghyfaint y cig defaid o Awstralia yn amlygu'r gystadleuaeth ryngwladol gynyddol. Mae deinameg y farchnad fyd-eang a mynediad masnach cynyddol yn parhau i lunio cyfleoedd a phwysau cystadleuol i gynhyrchwyr cig coch y DU. Bydd deinameg cyflenwad byd-eang a pholisi masnach yn parhau i fod yn ddylanwadau allweddol ar farchnadoedd cig coch y DU yn y dyfodol.*

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Chwefror

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **635.5c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.5c ar yr wythnos flaenorol,
- 2.3c uwchlaw lefelau flwyddyn ynghynt.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 634.4c/kg (+ 2.4c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 617.9c/kg (+5.1c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 507.3c/kg (-2.5c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Ionawr 2026

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 223,300 pen – gostyngiad o 3% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 163,300 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -5%, heffrod -3%, a theirw ifanc +2%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 353.3kg (+11kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 54,900 pen - i lawr 2% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU**
**Ionawr'26**
**75,600 tunnell**
**-1% b-a-f**



## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Chwefror

Roedd y pris cig oen pwysau marw* ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **723.8c/kg**. Roedd hyn:

- +10.8c ar yr wythnos flaenorol,
- -5.7c o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt,
- 96.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2021-25: 627.0c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 28,000 pen. Roedd hyn:

- - 11% ar yr wythnos flaenorol
- - 11% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

**Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn – Ionawr 2026

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 977,400 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 875,900 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 21.1kg (+1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 101,500 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant cig defaid yn y DU**
**Ionawr '26**
**21,400 tunnell**
**+0.5% b-a-f**



## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 21 Chwefror

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **186.6c/kg**. Roedd hyn:

- -1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- - 17.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 32.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2021-25: 171.6c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn – Ionawr 2026

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 889,500 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 871,800 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 94.7kg (+3.1kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 17,700 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant porc y DU**
**Ionawr '26**
**85,300 tunnell**
**+0.1% b-a-f**

